# Cyngor Cymuned Llanegryn Community Council

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
**E bost; Cyngorllanegryn@outlook.com; Ffôn: 07974795778**

20fed Ebrill 2026

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN Nos Lun yr 27ain Ebrill 2025 am 7.30pm** yn y Neuadd, Llanegryn.

Cysyllwch gyda mi os oes unrhyw ymholiad

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

……………………………………………………………………………………………

AGENDA

1.Gair o groeso, a sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

Derbyn ymddiheuriadau a gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain o Chwefror – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Priffyrdd.

b) Gardd Goffa – cais i roi plac – nodi'r diweddaraf.

c) Cynllun trafnidiaeth cymunedol – nodi'r diweddaraf

d) Parcio tu allan y Neuadd yn Llanegryn – nodi'r diweddaraf.

e) Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned – ystyried ymhellach syniadau eleni.

f) Cynllun Datblygu lleol Eryri

5.**Ethol Swyddogion 2026-27.**

a) Cadeirydd

b) Is- Gadeirydd

6. **Penderfynnu ar delerau a chostau Clerc 2026-27**

7. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Llanegryn ar gyfer 2026/27.**

8. **Derbyn ffurflenni cofrestr buddiannau wedi eu cwbwlhau gan Gynghorwyr**. Hefyd mabwysiadu cod ymddygiad, cadarnhau rheoliadau arianol/sefydlog, asesiad risg a'r cofrestr asedau (sydd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw neu ar ein gwefan) Hefyd mabwysiadu y polisiau eraill – pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth ( ar y wefan)

9. Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned **ar bwyllgorau / sefydliadau allanol** – Un Llais Cymru, Neuadd Llanegryn ayyb. Ethol neu ail-ethol cynrychiolwyr o'r Cyngor.

10**. Materion Cynllunio**

11.**Materion Cyllid.**

a) Nodi balansau y cyfrifon banc.

**Cyfrifon y Cyngor 2025-26** wedi eu paratoi gan y Clerc - i'w cyflwyno i'r Cynghorwyr. Maent eisoes wedi bod trwy law yr Archwilydd mewnol, sydd yn adroddiad clir, a byddwn yn nodi y cadarnhad i law.

b) Anfonebau i'w talu.

c) Ystyried unrhyw geisiadau am arian

12 **.Gohebiaeth**

a) Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru/cynllun hyfforddiant y Cyngor

b) Ceisiadau Cronfa Huw Owen

c) Cronfeydd Cymunedol Eryri – ceisiadau drwy'r Parc Cenedlaethol

13. **Unrhyw fater arall**